No.

# PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S.D. Perkes (Cadeirydd); Cynghorydd J. Aviet (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr I. Buckley, C.E.A. Champion, P. Drake, V.P. Driscoll, A.M. Ernest, M.J. Hooper, C. Iannucci a I.A.N. Perry

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr A. Asbrey, L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), B. Brooks (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy), C.P. Franks, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd) a M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

151 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

152 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mehefin, 2022 fel cofnod cywir.

153 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

154 TRWYDDEDAU MASNACHU PRIFFYRDD DROS DRO (CYF) –

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth y cyfeiriad o'r cyfarfod ar 23 Mehefin 2022.

Nodwyd bod gan y Cyngor bolisi manwl ar waith ar gyfer rhoi trwyddedau masnachu dros dro i fusnesau sy'n dymuno masnachu ar y briffordd gyhoeddus.

Roedd y rhan fwyaf o’r ceisiadau am drwyddedau masnachu ar y briffordd yn ymwneud â lle ar droedffyrdd cyhoeddus ac nid oedd unrhyw broblemau cyfredol gyda'r trefniadau ar gyfer y trwyddedau hyn. Rhoddwyd trwyddedau masnachu ar y briffordd dros dro hefyd ar gyfer Parciau Pafin. Unedau masnachu allanol pwrpasol bach a brynwyd i gynorthwyo busnesau ym Mhenarth fel prosiect peilot yn ystod y pandemig oedd Parciau Pafin ond fe'u gosodwyd ar y lôn gerbydau fyw. Roedd llwyddiant neu fel arall y rhain yn cael ei asesu ar hyn o bryd a byddai'n destun adroddiad yn y dyfodol yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol.

Ystyriodd yr adroddiad yr opsiynau masnachu hirdymor a’r problemau ardal gyhoeddus cysylltiedig yn ymwneud ag ardal Esplanâd Penarth a goblygiadau hyn ar y 3 busnes yr oedd angen iddynt symud eu trefniadau masnachu allanol o'r briffordd yn y lleoliad hwn ar 30 Mehefin 2022, ac effaith hyn ar un busnes yn Ynys y Barri, yr effeithiwyd arno yn yr un modd.

Gwnaed gwaith ardal gyhoeddus sylweddol ar Esplanâd Penarth, y Pier a Phafiliwn y Pier er 2021, ac roedd yn bwysig ystyried yn ofalus yr holl benderfyniadau yn ymwneud â gweithredu’n y presennol ac yn y dyfodol dir y mae’r Cyngor yn ei reoli yn y lleoliad hwn, er mwyn sicrhau gwerth cyhoeddus llawn y gwaith a wnaed eisoes a bod yr ardal yn parhau i ffynnu fel cyrchfan i ymwelwyr ac yn lle deniadol i fyw ynddo.

Roedd y busnesau’n elwa o'r trwyddedau masnachu 'ar y lôn gerbydau' yn yr Esplanâd ac yn Ynys y Barri i gyd wedi dangos eu dymuniad i gael trwyddedau newydd. Rhoddwyd rhybudd i bob un ohonynt y byddai eu trwyddedau'n dod i ben ar 30 Mehefin 2022.

Bu diddordeb sylweddol gan y cyhoedd mewn trwyddedau masnachu’r Esplanâd gyda safbwyntiau gwrthgyferbyniol eang ynghylch a oedd trefniadau masnachu al fresco yn llwyddiannus neu'n niwsans.

Oherwydd pwysigrwydd yr ardal a dymuniad y Cyngor i’w datblygu’n barhaus fel atyniad i ymwelwyr a lleoliad preswyl o ansawdd uchel, cynigiwyd y dylid cynnal ymarfer ymgysylltu ac ymgynghori cynhwysfawr â'r cyhoedd, yn dilyn ystyried yr adroddiad i gael barn pob parti sydd â diddordeb ar y trefniadau mwy hir tymor ar gyfer yr ardal gyhoeddus, masnachu a thrafnidiaeth gysylltiedig.

Roedd y Cabinet wedi penderfynu y gallai’r trefniadau masnachu presennol yn yr Esplanâd ac yn Ynys y Barri barhau dan drwyddedau dros dro yn ystod y cyfnod ymgynghori, gyda rhai cafeatau ac o fis i fis. Oherwydd y cyfyngiadau amser rhwng yr adroddiad a dyddiad dod i ben y trwyddedau masnachu presennol ar 30 Mehefin 2022, gofynnwyd am ddefnyddio’r 'weithdrefn frys' mewn perthynas â'r sefyllfa fasnachu.

Gofynnodd y Cynghorydd M. Hooper a oedd yr ymatebion a gafwyd yn wahanol rhwng Ynys y Barri a'r Esplanâd ym Mhenarth, ac a fu unrhyw gwynion gan drigolion Ynys y Barri. Dywedodd hefyd ei bod yn bwysig i ddull gwahanol gael ei fabwysiadu ar gyfer y ddwy ardal. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth fod yr ymatebion wedi bod yn debyg gyda rhai o blaid a rhai’n erbyn. Ychwanegodd fod rhai cwynion wedi bod gan

drigolion Ynys y Barri a oedd yn ymwneud yn bennaf ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yfed alcohol. O ran y broses, dywedodd fod yr un prosesau wedi'u dilyn er mwyn bod yn deg, ond ei bod yn debygol y byddai angen atebion gwahanol ar y Cyngor ar gyfer y ddwy ardal i'r materion a godwyd o'r ymarfer ymgynghori.

Gofynnodd y Cynghorydd C. Champion pam na ellid fod wedi gwneud hyn yn gynt, o gofio bod y trwyddedau yn mynd i ddod i ben ddiwedd Mehefin. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth mai'r teimlad oedd ei bod yn bwysig peidio â rhuthro'r penderfyniad o ystyried ei bod yn debygol y byddai barn amgen ac oherwydd bod angen trafodaeth gyda gweinyddiaeth newydd y Cyngor. Gan fod Covid wedi bod yn mynd ymlaen yn hirach na'r disgwyl, roedd y Cyngor wedi bod yn caniatáu estyniadau graddol o fis i fis.

Cytunodd y Pwyllgor ei bod yn bwysig i'r Cyngor gael barn trigolion yn ogystal â barn ymwelwyr, a dywedwyd bod angen ystyried hyd yr ymarfer ymgynghori o hyd, ond y byddai'n cael ei rannu gyda'r Aelodau ar ôl iddo gael ei gytuno. Yn ogystal, byddai adroddiad yn amlinellu canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd y Cynghorydd M. Wilson, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau, ei fod yn cytuno ei bod yn bwysig ymgynghori â thrigolion ac ymwelwyr. Ychwanegodd fod rhai busnesau wedi bod yn arloesol iawn yn ystod Covid, a bod y Cyngor yn awyddus i helpu economïau lleol, ond bod hefyd angen sicrhau cydbwysedd.

Ar ôl ystyried cyfeiriad y Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – Derbyn cynnwys yr adroddiad a phenderfyniadau'r Cabinet a wnaed ar 23 Mehefin 2022.

<u>Y rheswm dros yr argymhelliad</u>

Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

155 CYNLLUN TAIR BLYNEDD CYNNAL A CHADW PRIFFYRDD 2022 – 2024 (CYF) –

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet ar 7 Gorffennaf 2022.

Roedd Adran 41 Deddf Priffyrdd 1980 yn manylu ar ddyletswydd gyfreithiol y Cyngor fel awdurdod priffyrdd i gynnal a chadw priffyrdd ar draul y cyhoedd.

Roedd Cynllun Tair Blynedd Ailosod Wynebau Ffyrdd yr adran Cynnal a Chadw Priffyrdd ar gyfer 2022 – 2024 yn darparu'r sylfaen ar gyfer darparu priffordd wedi'i chynnal a'i chadw a'i rheoli'n dda a oedd yn hanfodol i gynnal anghenion economaidd, cymdeithasol a thrafnidiaeth Bro Morgannwg. Roedd y Cynllun

Ailosod Wynebau Ffyrdd arfaethedig wedi'i atodi yn Atodiad A yr adroddiad gyda ffyrdd blaenoriaeth wedi'u nodi gan Beirianwyr Priffyrdd y Cyngor fel rhai sydd angen triniaeth. Roedd yr holl ffyrdd a restrwyd yn y Cynllun fel rhai sydd angen wyneb newydd wedi'u hasesu dros y 12 mis diwethaf yn unol â'r 'System Sgorio ar gyfer Blaenoriaethu Wynebau Newydd Lonydd Cerbydau' fel y nodir yn Atodiad B yr adroddiad a byddent yn cael eu trin ym mlwyddyn ariannol 2022/2023.

Roedd y ffyrdd a restrwyd ar gyfer Gorchudd Asffalt Micro a Dresin Wyneb yn driniaethau ataliol a bennwyd gan asesiad peiriannydd yn unig ac fe'u rhestrwyd yn Atodiad A.

Byddai'r dyraniad o'r gyllideb ar gyfer 2022/23 yn cael ei wario ar dri math o driniaeth ar lonydd cerbydau, sef Ailosod Wyneb, Dresin Wyneb a Gorchudd Asffalt Micro yn unol â'r rhestr flaenoriaethau yn y Cynllun. Rhagwelwyd y byddai'r gyllideb sydd ar gael sef £2.3miliwn (2022/23) yn galluogi gosod wyneb newydd ar ffyrdd sy'n sgorio 210 pwynt neu uwch ar y Cynllun ar gyfer 2022/23.

Byddai'r ffyrdd hynny a restrwyd yn Atodiad A na dderbynion nhw waith eleni yn cael eu cynllunio i'w cwblhau yn y flwyddyn ariannol nesaf, yn amodol ar arian digonol. Roedd y ffyrdd hynny a restrwyd heb unrhyw sgoriau yn eu herbyn wedi'u hychwanegu at y Cynllun yn dilyn atgyfeiriadau gan randdeiliaid a byddent yn cael eu hadolygu ar ôl eu hasesu, eu sgorio a'u hystyried wrth adolygu'r Cynllun.

Pe bai cyflwr unrhyw briffordd yn golygu bod angen rhoi sylw iddo ar unwaith, awgrymwyd y dylid rhoi pwerau dirprwyedig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau, i ddiwygio'r Cynllun.

Dywedodd y Cynghorydd M. Hooper, gan mai cynllun tair blynedd oedd hwn, ei fod yn poeni am effaith chwyddiant yn ogystal â materion economaidd ehangach. Gallai'r rhain effeithio ar waith i wella priffyrdd ac ar gontractwyr, yn enwedig mewn perthynas â phrinder gweithwyr medrus. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth fod chwyddiant yn broblem, yn ogystal â chost gynyddol deunyddiau. Dyna pam roedd y gwasanaeth wedi penderfynu gwneud gwaith â sgôr 210 pwynt neu uwch, ond byddai hefyd yn dibynnu ar unrhyw gostau ychwanegol eraill. Ychwanegodd fod gan y gwasanaeth berthynas dda gyda'r contractwyr - roedd yn cael cyfarfodydd rheolaidd â nhw i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau a bod y Cyngor yn cael gwerth am arian. Oherwydd costau cynyddol, ni fyddai'r gyllideb a ddyrannwyd yn mynd mor bell ag yr oedd yn y gorffennol.

Gofynnodd y Cynghorydd I. Perry pam na chafodd pentrefi Tresimwn a Sain Nicolas eu nodi yn y Cynllun, gan gyfeirio at y gwelliannau oedd eu hangen ar yr A48 sy'n llawn ceudyllau. Dywedodd hefyd nad oedd y Cynllun yn ystyried iechyd a lles trigolion fel yr amlinellwyd yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol, yn enwedig o ran mynd i'r afael â sŵn ffyrdd. Mewn ymateb, cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth nad oedd y polisi presennol yn ystyried sŵn traffig ffyrdd, ond ei fod yn cydymffurfio â'r Ddeddf Priffyrdd. Nodwyd yr A48 trwy Dresimwn a Sain Nicolas yn yr Atodiad, ond cyflawnodd sgôr o 165.

Cynigiwyd adolygu’r system sgorio, a dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth y gellid ystyried cynnwys sŵn ffyrdd. O ran ceudyllau, dywedwyd y dylai’r Cynghorwyr roi gwybod am eu lleoliadau i'r Adran Briffyrdd.

Dywedodd y Cynghorydd M. Wilson, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau gyda chaniatâd i siarad, fod Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn ddarn eang o ddeddfwriaeth a chytunodd y byddai angen ystyried ymhellach wrth adolygu’r system sgorio. Roedd hefyd yn bwysig i'r Cyngor ystyried sut yr oedd sŵn ffyrdd yn cael ei fesur. O ran mynd i'r afael â cheudyllau, cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at y lefel bresennol o fuddsoddi sef bron i £4miliwn, a chroesawyd awgrymiadau gan y Cynghorwyr ac aelodau'r cyhoedd.

Cytunodd y Pwyllgor i gael cyflwyniad ar ailosod wynebau ffyrdd, a derbyniodd hefyd gynnwys yr adroddiad gan nodi gwrthwynebiadau'r Cynghorwyr I. Perry ac M. Hooper.

Wedi ystyried cyfeiriad y Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD – Derbyn cynnwys yr adroddiad a phenderfyniadau'r Cabinet a wnaed ar 7 Gorffennaf 2022.

Y rheswm dros yr argymhelliad

Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

156 MONITRO REFENIW AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 MAI 2022 (CAT) –

Nodwyd y byddai'r sefyllfa refeniw ar gyfer 2022/23 yn parhau’n heriol i'r Cyngor yn weithredol ac yn ariannol oherwydd goblygiadau parhaus pandemig COVID-19. Er bod y rhan fwyaf o arian Covid gan Lywodraeth Cymru bellach wedi dod i ben, roedd ffrydiau ariannu yn parhau ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim, rhai elfennau o'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac unrhyw daliadau hunanynysu sy'n weddill. Roedd cronfa wrth gefn gyffredinol ar gyfer ymateb i Covid gwerth £1.249m wedi'i sefydlu yn ystod 2021/22 i helpu i ymateb i rai o'r pwysau hynny yn 2022/23.

Roedd pwysau yn dod i'r amlwg yn ystod 2022/23 yn ymwneud â thaliadau ynni, chwyddiant cyffredinol yn enwedig mewn meysydd fel trafnidiaeth ysgol a chostau byw a phwysau staffio ar draws gwasanaethau a byddai angen eu monitro'n ofalus yn ystod y flwyddyn ariannol.

Roedd targed effeithlonrwydd o £500k wedi'i bennu ar gyfer y flwyddyn ac roedd gwasanaethau wrthi’n gweithio i fwrw eu targedau. Roedd rhai materion o hyd mewn perthynas â thargedau arbedion nas bwriwyd o flynyddoedd blaenorol.

Er ei bod yn gynnar yn y flwyddyn ariannol, rhagamcanwyd y byddai’r gwasanaethau yng nghylch gwaith y Pwyllgor hwn ag alldro ar gyllideb.

Awgrymodd y Cynghorydd M. Hooper y dylai adroddiadau yn y dyfodol gynnwys mwy o naratif am effaith chwyddiant a phrisiau cynyddol. Gofynnodd hefyd am y tebygolrwydd y byddai'r Cyngor yn cyflawni’r holl arbedion, o gofio nad oedd rhai arbedion wedi'u cyflawni y llynedd, ar ben y pwysau yn sgil chwyddiant cynyddol. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfrifydd y byddai'r pwysau chwyddiant yn debygol o barhau, ond roedd gan y Cyngor gronfeydd cyllidebol wrth gefn sylweddol yr oedd wedi'u hadeiladu dros y blynyddoedd blaenorol y gallai eu defnyddio. Yr agwedd bwysig arall oedd y setliad cyllideb gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn gynnydd o tua 3% ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Fodd bynnag, roedd hyn yn is na chwyddiant. O ran y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth, dywedwyd nad oedd targed arbedion ar gyfer y llynedd wedi ei fwrw’n llawn ac roedd angen £100k ychwanegol o arbedion eleni. Byddai hyn yn golygu aildendro gwasanaeth. Pe na bai'r arbedion cyllideb yn cael eu cyflawni, yna gallai fod angen i’r Cyngor ystyried defnyddio ei gronfeydd wrth gefn.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson (Aelod Cabinet) gyda chaniatâd i siarad, fod y Cynghorydd Hooper wedi codi rhai pwyntiau pwysig o ran pwysau chwyddiant, ac wrth symud ymlaen roedd angen i'r Cyngor edrych ar ei gyllideb a'i holl bwysau costau ac yn arbennig y rhesymau dros y pwysau hynny, fel, prinder gyrwyr lorïau a'r cynnydd yng nghost deunyddiau adeiladu. Dywedodd y Cynghorydd Wilson fod y Cabinet yn hapus i ystyried unrhyw syniadau ac awgrymiadau ynglŷn ag arbed arian ac ennill incwm ychwanegol.

Wedi hynny

ARGYMHELLWYD - nodi’r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2022/23 yr Awdurdod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

Y rheswm dros yr argymhelliad

Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

157 MONITRO CYFALAF AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 MAI 2022 (CAT) –

Rhoddodd yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y rhaglen Gyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Mai 2022. Dangoswyd manylion fesul cynllun yn Atodiad 1.

Nododd yr adroddiad unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt i Raglen Gyfalaf 2022/23 a rhai'r blynyddoedd i ddod.

Dywedodd y Cynghorydd M. Hooper nad oedd digon o naratif yn ymwneud â'r pwysau o ganlyniad i chwyddiant cynyddol. Gofynnodd hefyd am gynnwys mwy o wybodaeth am Fargen Ddinesig Rhanbarth Caerdydd.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â'r contract ar gyfer ceir trydan a'r defnydd o fannau gwefru trydanol, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth fod proses dendro wedi bod ar gyfer caffael ceir trydan i'r Cyngor, i

ddisodli'r cerbydau disel oedd yn arfer gweithredu. Roedd y cerbyd gafodd ei ddewis yn gystadleuol dros ben o ran milltiroedd am bob gwefriad a phris. O ran mannau gwefru, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod nifer o gamau ar gyfer cyflwyno seilwaith trydanol. Y cam cyntaf oedd gyda'r Fargen Ddinesig, oedd yn cynnwys rhoi mannau gwefru tacsis mewn nifer o leoliadau ar draws y Fro gan gynnwys Penarth. Roedd hwn yn dreial a byddai canfyddiadau hyn yn cael eu hadolygu gan Lywodraeth Cymru. O ran mannau gwefru cyffredinol, byddai'r rhain yn cael eu cyflwyno mewn meysydd parcio'r Cyngor ar y cyfan, ond hefyd mewn lleoedd fel canolfannau hamdden a pharciau gwledig dros y misoedd nesaf. Unwaith eto, roedd hyn yn rhywbeth yr oedd y Cyngor yn gweithio ar ei gyflawni gyda'r Fargen Ddinesig.

Wedi hynny

ARGYMHELLWYD -

(1) Nodi’r cynnydd a wnaed o ran cyflawni Rhaglen Gyfalaf 2022/23 ar gyfer y cynlluniau yng nghylch gwaith y Pwyllgor.

(2) Nodi’r defnydd o Awdurdod Dirprwyedig mewn perthynas â phrosiectau a nodir yn Argymhelliad (2) yr adroddiad.

(3) Nodi’r defnydd o Bwerau Brys fel y’i nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.

(4) Nodi’r newidiadau i Raglen Gyfalaf 2022/23 a rhai’r blynyddoedd i ddod fel y'u nodir yn Argymhelliad (4) yr adroddiad.

Y rhesymau dros yr argymhellion

(1-4) Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad ar gynnydd y Rhaglen Gyfalaf, y defnydd o Awdurdod Dirprwyedig, y defnydd o Bwerau Brys a newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf.

158 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 4 2021/22 (CAT) –

Cyflwynodd yr adroddiad ar berfformiad gynnydd y Cyngor yn Chwarter 4 (Ch4) (1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022) tuag at gyflawni ymrwymiadau ei Gynllun Cyflawni Blynyddol (2021/22) yn unol ag Amcanion Lles ei Gynllun Corfforaethol.

Bwriad y cyflwyniad atodedig oedd rhoi trosolwg i'r Aelodau o berfformiad diwedd blwyddyn yn gynharach yn y flwyddyn galendr. Roedd hyn cyn yr Hunanasesiad manylach ar gyfer 2021-22 a fyddai'n cael ei adrodd i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn cyn ei gyhoeddi ddechrau mis Tachwedd 2022.

Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i bob un o 4 Amcan Lles y Cynllun Corfforaethol yn Ch4 i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran cyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2021/22. Roedd hyn yn gadarnhaol o ystyried yr heriau parhaus sy'n deillio o'r pandemig.

Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 89% (287 allan o 321) o'r gweithgareddau a gynlluniwyd a nodwyd yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor sy'n adlewyrchu’r cynnydd cadarnhaol a wnaed yn ystod y chwarter. Priodolwyd statws Coch i 11% (34) o'r gweithgareddau a gynlluniwyd.

O’r 34 o gamau gweithredu a gafodd statws perfformiad Coch ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 29% (10) yn uniongyrchol o ganlyniad i fesurau ailflaenoriaethu gwasanaethau a wnaed mewn ymateb i effaith y pandemig parhaus. Mewn perthynas â'r meysydd hyn, lle y bo'n briodol, roedd gwaith wedi ailddechrau fel rhan o gynlluniau a strategaeth adfer y Cyngor. Roedd y cyflwyniad a oedd yn cyd-fynd â’r adroddiad ar berfformiad yn rhoi gwybod i’r Aelodau o’r Pwyllgor Craffu am y cynnydd o ran adfer ar ôl y Coronafeirws ac roedd yn canolbwyntio ar dynnu sylw at faterion a oedd yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor. Roedd y wybodaeth ddiweddaraf hon ar adfer o’r Coronafeirws yn rhan o adroddiadau perfformiad chwarterol i sicrhau bod yr Aelodau'n cadw golwg ar y materion adfer sy'n effeithio ar waith eu Pwyllgorau perthnasol. O'r safbwynt hwn, gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran adfer ar ôl y Coronafeirws.

O’r 149 o fesurau perfformiad sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor, adroddwyd data ar gyfer 67 o fesurau lle'r oedd statws perfformiad yn berthnasol. Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 72% (48) ohonynt, statws Ambr i 7% (5) ohonynt, a statws Coch i 21% (14) ohonynt. Nid oedd statws perfformiad yn berthnasol ar gyfer 82 o fesurau. Roedd 45 o'r rhain yn ymwneud â'r mesurau hynny sy'n sefydlu perfformiad sylfaenol ar gyfer 2021/22, y mesurau hynny oherwydd mesurau ailflaenoriaethu a roddwyd ar waith mewn ymateb i effaith pandemig COVID-19 parhaus (22) a'r mesurau hynny lle nad oedd data ar gael am y cyfnod oherwydd rhesymau nad oeddent yn ymwneud â COVID (15).

O ran y 14 o fesurau a gafodd statws Coch yn ystod y chwarter, roedd effaith COVID-19 wedi cyfrannu at 64% (9) yn methu'r targed.

Mewn perthynas â'r gweithgareddau a gynlluniwyd o fewn cylch gwaith Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio, priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 90% (94 allan o 104) a statws Coch i 10% (10). O'r 10 a gafodd statws perfformiad Coch, nodwyd effaith COVID-19 fel ffactor cyfrannol yn y llithriant a gofnodwyd ar gyfer 2 o’r camau gweithredu. O'r 21 mesur a adroddwyd, priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 86% (18), statws Oren i 5% (1), a statws Coch i 10% (2). Mewn perthynas â'r 2 fesur a gafodd statws Coch, mae effaith COVID-19 wedi cyfrannu at fethu'r targed ar gyfer dim un o'r mesurau.

Roedd yr adroddiad yn gofyn i’r Aelodau Etholedig ystyried canlyniadau perfformiad Ch4 a'r camau adferol arfaethedig i fynd i'r afael â meysydd tanberfformio a nodwyd. Ar ôl ei ystyried, argymhellwyd y dylai'r Pwyllgor Craffu gyfeirio ei farn ac unrhyw argymhellion i'r Cabinet i'w hystyried.

Wedi ystyried yr adroddiad,

ARGYMELLWYD -

(1) Nodi'r canlyniadau perfformiad a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22 yn unol ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) Nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd lle mae tanberfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd yng nghylch gwaith y Pwyllgor.

(3) Nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud drwy strategaeth adfer a Chynlluniau Adfer Cyfarwyddiaethau'r Cyngor mewn ymateb i bandemig parhaus y coronafeirws.

Y rhesymau dros yr argymhellion

(1-3) Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

159 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

160 DYFARNU CONTRACTAU AR GYFER GWASANAETHAU BWS LLEOL Â CHYMORTH GALW I MEWN (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12 A 14) –

Ystyriodd y Pwyllgor Craffu'r alwad i mewn gan y Cynghorydd A. Ernest yn ymwneud â dyfarnu contractau ar gyfer gwasanaethau bysus lleol a gefnogir.

Cytunodd y Pwyllgor bod cefnogi gwasanaethau bysus lleol yn bwysig pan ddaeth i'n fater o daclo'r newid yn yr hinsawdd a lleihau traffig ar y ffyrdd. Roedd y gwasanaethau bysus hefyd yn hynod o bwysig o ran cefnogi grwpiau agored i niwed ac yn hanfodol wrth gynorthwyo pobl i deithio i'r gwaith ac ohono a hyrwyddo twristiaeth a gweithgareddau cymdeithasol. Dywedwyd y dylai'r Cyngor geisio buddsoddi mwy gyda phosibilrwydd o dorri prisiau a hyrwyddo gwasanaethau. Cytunodd y Pwyllgor felly fod angen hyrwyddo'r gwasanaethau'n fwy er mwyn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a chynyddu nifer y teithwyr.

Wedi hynny

ARGYMHELLWYD –

(1) Derbyn cynnwys yr adroddiad a phenderfyniadau'r Cabinet a wnaed ar 9 Mehefin 2022.

(2) Rhoi gwybod i’r Cabinet am farn Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio ar yr angen i hyrwyddo gwasanaethau bysus lleol a gefnogir yn fwy ac i godi mwy o ymwybyddiaeth ohonynt.

Y rhesymau dros yr argymhellion

(1) Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Hyrwyddo'r gwasanaethau bysus er mwyn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a chynyddu nifer y teithwyr ac yn seiliedig ar y farn bod y gwasanaethau bysus yn cynorthwyo pobl i deithio i'r gwaith, yn helpu twristiaeth a gweithgareddau cymdeithasol yn ogystal â bod yn hanfodol i grwpiau sy'n agored i niwed a chymunedau anodd eu cyrraedd.